

Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood  
Support Scheme

# CYLCHLYTHYR CYNLLUN CYMORTH GWAED HEINTIEDIG CYMRU (WIBSS)

Medi 2023

## Newidiadau Staff Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS)

Bu nifer o newidiadau staff dros y misoedd diwethaf o fewn y Tîm WIBSS.

*Staff presennol WIBSS -*

**Rheolwr WIBSS** – Mrs Mary Swiffen-Walker,

**Dirprwy Reolwr** – Hayley Price

**Seicolegydd Ymgynghorol** – Caroline Coffey

**Cwnselydd** – rydym yn recriwtio er mwyn cyflogi rhywun i gymryd lle Julie.

**Swyddog Cyllid** – Stefan Dakovic

**Cynghorwyr Hawliau Lles** – Ryan Clappe / Rebecca O'Callaghan (ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd)

**Swyddog Cymorth** – Daniel Murphy

## Nodyn Atgoffa Taliad Tanwydd Gaeaf

Yn ogystal â'ch taliadau WIBSS rheolaidd, byddwch yn derbyn taliad tanwydd gaeaf untro o £618 ym mis Hydref 2023.

## Dewisiadau Cyfathrebu

Os ydych yn derbyn y cylchlythyr hwn neu ohebiaeth WIBSS arall, gan gynnwys cyngor talu, drwy'r post, ond byddai'n well gennych dderbyn y cyfan yn ddigidol, cysylltwch â ni ar [wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk) neu ffoniwch ni i ofyn am newid.

## CYSYLLTWCH Â

Cysylltwch â WIBSS ar  
**02920 902280** neu  
anfonwch e-bost at  
[wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk)


Os na fydd eich galwad yn cael ei hateb, gadewch neges gyda'ch enw a'ch rhif cyswllt a byddwn yn eich ffonio yn ôl yn brydlon.

Ar gyfer Seicoleg a Llesiant anfonwch e-bost at:  
[wibss.wellbeing@wales.nhs.uk](mailto:wibss.wellbeing@wales.nhs.uk)

## Cyswllt Diweddar

Rydym yn cymryd eich gwybodaeth bersonol o ddifrif.

Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch tarddiad llythyr yn gofyn am eich data personol, sy'n ymddangos fel pe bai'n dod o WIBSS, cysylltwch â ni ar ein llinell uniongyrchol, **02920 902280**.



Cynllun Cynorthwyo Gwaed  
wedi'i haentio Cymru

Wales Infected Blood  
Support Scheme

## Yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig

Mae cyhoeddi Adroddiad Terfynol yr Ymchwiliad i Waed Heintiedig wedi'i ohirio tan fis Mawrth 2024. Mae'r datganiad llawn ar gael ar-lein. [Cyhoeddi stori newyddion Adroddiad yr Ymchwiliad](#)

### HAWLIAU LLESIANT

Yn darparu cyngor ac eiriolaeth cyfrinachol i chi a'ch teulu ynglŷn â budd-daliadau, arian, cymorth a mwy.

### Prawf o Incwm – Morgeisi

I'r rhai sy'n gwneud cais am forgais newydd neu'n adnewyddu morgais, rydym yn hapus i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig o'ch incwm WIBSS. Cysylltwch â ni os oes angen llythyr personol arnoch at y diben hwn (neu at ddibenion ariannol cysylltiedig eraill).

Mae ein Tîm Hawliau Llesiant hefyd yn cynnig cymorth i lywio'r broses hon sy'n aml yn gymhleth. Maent yn cynnig cymorth i gael y gwaith papur a deall y ffurflenni.

Gallwch gysylltu â Thîm Llesiant WIBSS drwy e-bost [wibss@wales.nhs.uk](mailto:wibss@wales.nhs.uk) neu gallwch ein ffonio ar 02920 902280 a phwysu 2.

## TÎM SEICOLEG A LLESIANT

Rydym am eich atgoffa o'r gwasanaethau sydd ar gael i chi. Mae WIBSS yn cynnig asesiad a thriniaeth seicolegol gyfrinachol, rhad ac am ddim, yn ymwneud ag anawsterau emosiynol cael diagnosis o Hepatitis C a/neu HIV, a byw gyda nhw. Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i chi ac aelodau'ch teulu. Os hoffech chi gysylltu â ni, gellir cysylltu â'r tîm penodedig ar 029 20 196141, neu drwy e-bost: [wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk](mailto:wibss.wellbeingsservice@wales.nhs.uk).

Ar hyn o bryd, rydym yn y broses o recriwtio cwnselydd WIBSS ac yn gobeithio llenwi'r rôl hon yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddwn yn cyflwyno'r cwnselydd yng nghylchlythyr mis Rhagfyr.

Er ein bod yn recriwtio cwnselydd newydd rydym yn dal i dderbyn atgyfeiriadau newydd a bydd apwyntiad gyda Caroline Coffey yn cael ei drefnu os oes angen.

---

*Dymunwn yn dda i chi gyd yr hydref hwn,*  
**Tîm Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru**

---